Seminar Rhad ac Am Ddim ar Bensiynau wedi'i Ardystio gan CPD

15 Medi 2011, Caerdydd

Mae tîm pensiynau Burges Salmon yn hynod falch i westeia seminar brecwast ar 15 Medi 2011 yng Ngwesty newydd, canolog Maldron, Caerdydd. Byddem uwchben ein digon petaech chi a'ch cydweithwyr yn ymuno â ni er mwyn i chi fedru dysgu mwy amdanom a sut gallwn eich helpu chi ynghylch pensiynau. Mae llawer ohonom yn dod o Gymru, neu mae gennym gysylltiadau agos â hi, sy'n bwysig iawn i ni.

Bydd y sesiwn yn cwmpasu:

- **Cipolwg o'r tu mewn ar y Rheolydd Pensiynau a sut bydd yn defnyddio'i rymoedd**

Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau cyfarwyddyd cynhorthwy ariannol a hysbysiad cyfrannu a byddem yn falch iawn i rannu ein profiadau â chi a rhoi mewnwelediad i chi ynghylch ble gall y Rheolydd fynd nesaf.

- **Y newid radical i gofrestru awtomatig**

Am y tro cyntaf, bydd rhaid i gyflogwyr gofrestru eu gweithwyr mewn cynllun pensiwn a chyfrannu ar eu rhan. P'un ai ydych chi eisoes ymhell ar y blaen o safbwynt eich strategaeth cyfathrebu hollbwysig neu nid ydych wedi canfod eich dyddiad cyflwyno a'ch gweithwyr cymwys eto, bydd y sesiwn hwn yn cwmpasu'r manylion technegol a'r camau nesaf ymarferol fel ei gilydd.

- **Diweddariad ar Bynciau Llosg Cyfreithiol**

Ydych chi'n ei chael mor anodd i ddilyn y newidiadau diweddaraf mewn deddfwriaeth pensiynau ag y mae i ddyfalu p'un ai fydd Warren Gatland yn aros fel hyfforddwr Cymru ar ôl y Cwpan y Byd? Os felly, byddwn ni'n eich tywys chi drwy'r cymhlethdodau a rhoi ciplun i chi o beth sydd angen i chi ganolbwyntio arno mewn gwirionedd.

Ble? Gwesty Maldron, Stryd y Santes Fair, Caerdydd, CF10 1GD

Pwy? Actiwarïaid, ymddiriedolwyr, rheolwyr pensiwn, ymgynghorwyr a chynghorwyr i gyflogwyr.

Pryd? 8:00yb - Cofrestru/brecwast
8:30yb - Mae'r seminar yn dechrau
10:00yb - Coffi a Sgwrs

Pam? Os oes angen rheswm arall arnoch dros fod yn bresennol, gall y seminar hwn gyfrif tuag at oriau CPD ar gyfer aelodau PMI, actiwarïaid a chyfreithwyr.

Am wybodaeth bellach ac er mwyn archebu lle, byddwch gystal â chysylltu â: **Martin Dawson, Cyd-drefnydd Digwyddiadau ar 0117 307 6995 neu anfon e-bost i seminars@burges-salmon.com**

seminar

Burges Salmon LLP, One Glass Wharf, Bristol BS2 0ZX
Ffôn: +44 (0) 117 939 2000 Ffacs: +44 (0) 117 902 4400

Chancery Exchange, 10 Furnival Street, London EC4A 1AB
Ffôn: +44 (0) 20 7685 1200 Ffacs: +44 (0) 20 7685 1266

www.burges-salmon.com

BURGES SALMON

Mae Burges Salmon LLP yn Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif LLP OC307212) a chaiff ei reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Gellir archwilio rhestr o'n haelodau , y mae pob un ohonynt yn gyfreithiwr, yn ein swyddfa gofrestredig : One Glass Wharf, Bryste BS2 0ZX.

Diogelu Data: Prosesir eich manylion a'u cadw'n ddiogel yn unol â Deddf Diogelwch Data 1998. Gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn anfon gwybodaeth i chi ynghylch ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, llythyrau newyddion a diweddariadau yn y gyfraith; er mwyn eich gwahodd i'n seminarau hyfforddi a digwyddiadau eraill; ac er mwyn dadansoddi gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau marchnata. Er mwyn ein helpu i gadw'n cronfa ddata'n gyfredol, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda, os yw eich manylion cysylltu'n newid neu os nad ydych yn dymuno derbyn unrhyw ddeunydd marchnata pellach trwy gysylltu â marketing@burges-salmon.com.

Amdanom ni

- Gyda 31 o gyfreithwyr pensiwn arbenigol , mae gan Burges Salmon un o dimau pensiwn mwyaf sylweddol y DU.
- Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys **Midcast Engineering, Amgueddfa Cymru, Prifysgol Caerdydd, Hoover Candy Group, Cardiff Bus, Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru** a **First Cymru Buses**.
- Bu i Arolwg Mewnwelediad Cyfreithiol Pensions Week 2011 ein dyfarnu fel y 4ydd mwyaf o dimau pensiynau'r DU o safbwynt y nifer o gwsmeriaid rydym yn eu cynghori, a'r 5ed mwyaf yn ôl maint y tîm.
- Yn ddiweddar, cyraeddasom y rhestr fer ar gyfer **Gwobrau Pensiwn y DU – Cyfreithwyr Pensiynau'r Flwyddyn**, y **Gwobrau Pensiynau Ewropeaidd – Cwmni Cyfreithiol Ewropeaidd y Flwyddyn** ac enillasom 'Gymeradwyaeth Uchel' yng **Ngwobrau Darparwyr Pensiynau a Buddsoddiadau 2011 – Cwmni Cyfreithiol Pensiynau'r Flwyddyn**

Darparu gwasanaethau pensiynau ledled Cymru

Mae eich tîm craidd o naw o gyfreithwyr pensiwn yn darparu cyngor arbenigol ar bensiynau i ystod eang o gynlluniau wedi'u seilio ledled Cymru.

Sylweddolwn mor bwysig yw caffael dealltwriaeth fanwl o'ch diwydiant chi a'i gyd-destun. Mae gan lawer o'n tîm gysylltiadau cryf â Chymru, gan gynnwys y rheiny sy'n rhugl yn y Gymraeg, y rheiny sy'n byw yng Nghymru , a'r rheiny sydd â phrofiad o gynghori nifer fawr o gynlluniau Cymreig. Mae gennym yr wybodaeth arbenigol am bensiynau a gwybodaeth leol am ddiwydiant er mwyn medru cynghori eich cynllun ynghylch unrhyw agwedd ar gyfraith pensiynau.

Gyda'n swyddfa yn ymyl gorsaf rheilffordd Temple Meads ym Mryste, mae gennym gysylltiadau cludiant rhagorol â Chymru. Ein nod bob amser yw darparu gwasanaeth fel petaem ond tafliad carreg oddi wrthych, ac **nid ydym yn codi tâl arnoch am deithio**.

Eich Tîm Burges Salmon – gweithio gyda chwsmeriaid Cymreig

Clive Pugh
Partner
+44(0)117 307 6943
clive.pugh@
burges-salmon.com

Ymgynghorydd i Midcast Engineering

Tim Illston
Partner
+44(0)117 939 2284
tim.illston@
burges-salmon.com

Ymddiriedolwr Annibynnol ar gyfer Cynllun Pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Bethan Edwards
Uwch Gydymaith
bethan.edwards@
burges-salmon.com

Siaradwraig Gymraeg

Catrin Young
Uwch Gydymaith
+44(0)117 307 6845
catrin.young@
burges-salmon.com

Cymraeg yw ei mamiaith, magwyd hi yn Aberhonddu

Trilby James
Cyfreithwraig
+44(0)117 902 7260
trilby.james@
burges-salmon.com

Siaradwraig Gymraeg

Hannah Davis
Cyfreithwraig
+44(0)117 902 6688
hannah.davis@
burges-salmon.com

Mae'n byw yng Nghanton, Caerdydd ac yn ymgynghorydd i gynllun Cludiant Dinas Caerdydd

Claire Rankin
Uwch Gydymaith
+44(0)117 902 6351
claire.rankin@
burges-salmon.com

Cynbartner yn Eversheds, Caerdydd, ymgynghorydd i Brifysgol Caerdydd

John Dinnegan
Cydymaith
+44(0)117 902 7280
john.dinnegan@
burges-salmon.com

Ymgynghorydd i Sofa Brands

Louise Brown
Cyfreithwraig
+44(0)117 307 6863
louise.brown@
burges-salmon.com

Siaradwraig Gymraeg